# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Tachwedd 2020

Amser: 09.30 - 12.08

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6462

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Angela Burns AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Simon Jones, Llywodraeth Cymru<br>Steve Vincent, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Adrian Crompton<br>Matthew Mortlock<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Daeth ymddiheuriadau i law gan Gareth Bennett AS a Rhianon Passmore AS.

## 2 Maes Awyr Caerdydd: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Bu’r Pwyllgor yn holi Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Simon Jones, Cyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd a Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr, Seilwaith Economaidd, Llywodraeth Cymru ar Faes Awyr Caerdydd.

2.2 Dywedodd Simon Jones wrth y Pwyllgor ei fod wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd Holdco o 30 Medi 2020 ymlaen a bod trefniadau ar y gweill i benodi olynydd.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Maes Awyr Caerdydd: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

4.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio breifat ar faterion masnachol sensitif yn ymwneud â Maes Awyr Caerdydd gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

4.2 Cytunodd Andrew Slade i anfon nodyn ar sut mae'r llog ar y benthyciadau masnachol yn cael ei reoli, ynghyd â chanlyniad y broses – sy’n mynd rhagddi ar hyn o bryd – i benodi Cadeirydd newydd Holdco.

4.3 Ystyriodd yr aelodau’r dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunwyd y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi barn y Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylai'r Adroddiad Etifeddiaeth argymell bod y Pwyllgor olynol yn y 6ed Senedd yn parhau i fonitro materion sy’n ymwneud â Maes Awyr Caerdydd.